# ateb

## Myfyrio ynghylch 2020

Myfyrio ynghylch 2020

Bwletin Myfyrio 5

# Adeiladu tai fforddiadwy newydd yn ein cymunedau

Roedd yr achlysur braidd yn wahanol i'r parti yr oeddem yn meddwl y byddem yn ei gael ym mis Mawrth pan gafodd ein **3,000fed** cartref ei drosglwyddo i un o gwsmeriaid newydd ateb. Mae ateb wedi bod yn datblygu cartrefi newydd ar gyfer pobl y gorllewin ers 1981, ac wrth i ni dyfu o ran maint mae ein hawydd i ddarparu mwy o gartrefi wedi tyfu hefyd. Yn ystod y 3 blynedd nesaf, rydym yn gobeithio ehangu ein rhaglen ddatblygu o'r naill flwyddyn i'r llall, a fydd nid yn unig yn cynorthwyo'r sawl sy'n chwilio am gartref fforddiadwy, ond hefyd yn cynnig manteision economaidd y mae eu hangen yn enbyd ar y gymuned leol. Dyma ein Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Will Lloyd Davies, i esbonio mwy:

"Mae ein partneriaid datblygu wedi parhau i weithio drwy'r rhan fwyaf o'r trafferthion sydd wedi bod yn gysylltiedig â Covid-19, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y grantiau gwerth dros £6 miliwn a gawsom y llynedd gan Lywodraeth Cymru i dalu am gartrefi rhent cymdeithasol yn y gorllewin. At hynny helpodd Mill Bay Homes, sef ein his-gwmni adeiladu â chydwybod cymdeithasol, i ddatblygu 29 o gartrefi newydd yn Knowling Mead, Dinbych-y-pysgod. Roedd galw mawr am y cartrefi hynny, a chawsant eu dyrannu'n sydyn gan ddefnyddio cynllun Cyngor Sir Penfro ar gyfer gosod tai i bobl leol, sy'n seiliedig ar ddewis.

Mae llawer o gymunedau gwledig y gorllewin yn gweld yr angen i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy er mwyn eu galluogi i barhau'n gymunedau bywiog. Mae cymunedau sy'n ei chael yn anodd cadw pobl ifanc, oherwydd prisiau tai a chyfleoedd o ran gwaith, yn gweld bod hynny'n effeithio ar eu cynaliadwyedd hirdymor. Mae ateb yn falch iawn o fod yn bartner i Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro er mwyn darparu Swyddog Galluogi Tai Gwledig ar gyfer Sir Benfro yn ystod y flwyddyn nesaf.

Bydd Partneriaeth Tai Gwledig Sir Benfro yn ceisio datblygu cyfleoedd newydd o ran tai fforddiadwy gwledig ar draws y sir, er mwyn helpu i sicrhau cynaliadwyedd cymunedau gwledig."



**29** o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio **rhoddion cymorth** a ailgylchwyd o **Mill Bay Homes**

Cynllun **3** blynedd i ehangu ein rhaglen ddatblygu

**112** o gartrefi newydd wedi'u cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 20/21

Wrth i'r broses ar gyfer ariannu tai fforddiadwy newydd newid yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ceisio cynorthwyo ein partneriaid mewn awdurdodau lleol i gyflawni eu hamcanion o ran tai a chymunedau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu rhinweddau cydweithio, a byddwn yn parhau i fabwysiadu'r dull hwnnw o weithredu wrth ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd yn y gorllewin.

Nick Hampshire
**Prif Weithredwr**
**Grŵp ateb Cyfyngedig**

Mae Grŵp ateb yn cynnwys

**ateb** *better living solutions*

Landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â 3,000 o gartrefi ac sy'n gweithredu yng ngorllewin Cymru.

**millbay** Welcome Home

Cwmni cyfyngedig dan berchnogaeth lwyr, sy'n rhoi derbyniadau rhoddion cymorth yn ôl i'w riant at ddibenion cymdeithasol.

West Wales **Care & Repair**
**Gofal a Thrwsio** Gorllewin Cymru

Asiantaeth gofal a thrwsio sy'n cynorthwyo pobl hŷn a mwy agored i niwed sydd naill ai'n berchen ar eu cartref eu hunain neu'n rhentu eu cartref, drwy roi cyngor iddynt am fudd-daliadau a gwneud addasiadau i'w cartref er mwyn lleihau'r amser na fyddant yno.